

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Y Fedal Gyfansoddi dan 25 oed (349)

BEIRNIADAETH MEIRION WYNN JONES

Evita

Mae'r pedwarawd llinynnol, *Mango Tango* yn agor yn addawol gyda'r offerynnau taro, cyn inni glywed y pedwar bar (bb. 5-8) sy'n sail i gerddoriaeth adran gyntaf y darn. Mae deunydd y barrau yma'n gofiadwy, ac yn dod â thinc Sbaenaidd i'n clustiau.

Yr adran ganol yw man gwanaf y darn i mi – wedi inni symud o C fwyaf i F leiaf, nid oes digon o newid yn yr ysgrifennu (o ran rhythm a gwead y rhannau) i gadw ein diddordeb. Nid yw'r sgôr yn rhwydd i'w ddarllen ar adegau, a dwi'n amau fod ambell i fanylyn ar goll (er enghraifft, b. 85 – E feddalnod yn Ffidil I?). Mae b. 63 yn wahanol i arddull gweddill y darn, a byddai'n werth ailfeddwl hwn. Yn yr un modd, byddai'n syniad edrych eto ar bb. 65-75 er mwyn creu rhannau unigol sy'n llifo'n rhwyddach.

Mae yma botensial a dychymyg. Beth sydd angen nawr yw i wrando'n ofalus ar sut mae offerynnau'n swnio gyda'i gilydd.